



## Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Hydref 2021 am 6.00yh  
yn rhithiol ac yn Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi  
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 October 2021 at 6.00pm  
virtually and at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan  
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

**Presennol/**Present—**Y Cyngorwyr/Councillors** Trystan Phillips (**yn y gadair /** in the chair), Clive Davies, Shan Williams, John Adams-Lewis, Graham Evans, Steffan Morgan, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Richard Jones, Morvenna Richards, Yvonne O’Neill, Llinos Haf Jones (**Cyfiethydd /** Translator) Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

**Bydd 15 munud ar ddechrau’r cyfarfod i glywed cwestiynau a sylwadau cyhoeddus.**  
There will be 15 minutes at the beginning of the meeting to hear public questions and comments.

### AGENDA

**1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a’r rhesymau a roddwyd.**

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

*Y Cyng/Cllr Debra Griffiths (salwch/ill-health), Elaine Evans (i ffwrdd/away).*

**2. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb**

**Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.**

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council’s Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams Lewis, Catrin Miles, Graham Evans	<i>Cais am rhodd / Grant Application Gwyl Fawr Abereifi</i>
Y Cyng / Cllr Richard Jones	<i>Cais am rhodd / Grant Application Theatr Mwldan</i>
Y Cyng / Cllr Clive Davies	<i>Cais am rhodd Castell Aberteifi / Grant Application Cardigan Castle</i>
Y Cyng / Cllr Clive Davies, Morvenna Richards, Catrin Miles	<i>Cais am rhodd Pwll Nofio Aberteifi / Grant Application Cardigan Memorial Pool and Hall Trust</i>

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	<i>Cais am rhodd Clwb Pêl-droed Aberteifi / Grant Application Cardigan Football Club</i>
Y Cyng / Cllr Catrin Miles	<i>Cais am rhodd Theatr Byd Bychan / Grant Application Small World Theatre</i>
Y Cyng / Cllr Catrin Miles, John Adams Lewis	<i>Cais am rhodd Gefeillio Aberteifi Brioude / Grant Application Cardigan Brioude Twinning</i>

### 3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 7 Medi 2021.**

**Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 7 Medi yn gywir.**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod Is-bwyllgor a gynhaliwyd nos Fawrth 21 Medi 2021.**

**Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod Is-bwyllgor a gynhaliwyd Nos Fawrth 21 Medi yn gywir.**

#### Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 7 September 2021.

The Councillors proposed that the 7 September council minutes be recorded as correct.

To approve and sign minutes of the Sub-committee meeting held on Tuesday 21 September 2021.

The Councillors proposed that the 21 September Sub-committee council minutes be recorded as correct.

### 4. **Adroddiad y Clerc**

**I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021.**

**Dim i'w nodi.**

#### Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 7 September 2021.

Nothing to note.

### 5. **Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat**

**I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.**

**Ni ddatganwyd unrhyw eitemau.**

#### Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

No items declared.

### 6. **Cynllunio**

**Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.**

**Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio y mis hwn.**

#### Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

No planning applications received this month.

## 7. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

### a) **Biliau i'w talu / Bills to be paid**

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/10/21	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Awst/August)</i> <i>Band Lydan (Gorffennaf) / Broadband</i> <i>Llogi ystafell gynadledda / Conference room hire</i>	A9 A20 A9	D/D 5107 5107	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00) £25.00(0.00)
5/10/21	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Gorffennaf/July)</i>	A5	5108	£1181.24 (0.00)
5/10/21	<i>Bachan Deche / Handyperson (Gorffennaf/July)</i>	A19	5109	£403.20(67.20)
14/9/21	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	5110	£67.50(0.00)
8/9/21	<i>Sharp - Ffi Ffotocopiwr / Photocopier Fee</i>	A7	5111	£46.20(7.70)
28/9/21	<i>Mr Ken Griffiths – Ffi archwilydd allanol/External Auditor Fee</i>	A13	5112	£320.00(0.00)
31/8/21	<i>CCF – Miracle Gro</i>	C1	5113	12.49(2.00)
21/9/21	<i>Menter Aberteifi – Trydan Golau Nadolig / Electricity use for Christmas Lights</i>	B1	5114	£235.20(0.00)
30/9/21	<i>Menter Aberteifi – Ffi ystafell Radley Dydd Sul y Cadeodiad/Fee for Radley Room Remembrance Sunday</i>	A23	5115	£55.00(0.00)
21/9/21	<i>Menter Aberteifi – Ffi cyfarfod yn ystafell Radley/Meeting fee Radley Room</i>	A23	5115	£15.00(0.00)
29/9/21	<i>Siemens – Lease rental photocopier</i>	A7	D/D	£150.00(25.00)
1/10/21	<i>Vision ICT – Annual Website hosting fee</i>	C8	5116	£252.00(42.00)
30/09/21	<i>Newsquest Media Group – AGM King George V Advert</i>	A10	5117	£86.94(14.49)
6/10/21	<i>HMRC – Gorffennaf, Awst, Medi / July, August, Sept</i>	A16	5118	£548.22(0.00)

#### **Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.**

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

#### **Derbyniadau/Receipts:**

09/9/2021	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£0.38
02/9/2021	<i>Rhent clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan Rugby Club Rent (£650 2020; £325.00 2021)</i>	£975.00
06/09/2021	<i>S Greenhalgh – Ad-daliad costau cerddoriaeth fyw Repayment live music costs.</i>	£325.50

### b) **Adroddiad Ariannol hyd at 30 Medi 2021 / Financial Report to 30 September 2021**

#### **Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.**

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

**Cytunodd y Cyngor i gymeradwyo'r adroddiad ariannol uchod / The council agreed to approve the above financial report.**

### c) **Gohebiaeth / Correspondence**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen / Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
228	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd / CCC Road Closures Setction : Cau ffordd dros dro/ Temporary road closure order – Ger Theatr Mwldan, Stryd y Bathondy, Aberteifi/ Near Theatre Mwldan, Bathouse Road, Cardigan, SA43 1JY: 8/9/21; 24 awr y dydd/24 hours a day.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 08/09/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 08/09/2021.</i>

229	<i>Comisiwn Ffiniau i Gymru – cyhoeddi cynigion cychwynnol.</i> Boundary Commission for Wales – Initial Proposals Published.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 08/09/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/09/2021.
230	<i>Y Cyng/Cllr Catrin Miles, Donna Hanly Pennaeth</i> /Headteacher Ysgol Gynradd Aberteifi: <i>Gwasanaethau bws</i> / Bus services.	<i>Mae cyngorwyr yn cytuno bod angen gwasanaeth bws. Clerc i e-bostio Green Dragon a Book A Bus i weld a ellir defnyddio eu gwasanaeth fel cludiant ysgol / Councillors agree a bus service is required. Clerk to email Green Dragon and Book A Bus to see if their service can be used as a school transport.</i>
231	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Uchafbwyntiau gwybodaeth gweminarau Medi /</i> Informations Highlight September Webinars, Ageing Well in Wales.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 09/09/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/09/2021.
232	Liz Lewis – <i>Rhwystredigaeth ynghylch cyfleusterau parcio i'r anabl /</i> Frustration regarding disabled parking facilities.	<i>Mae cyngorwyr yn cytuno bod hon yn broblem ac yn cydymdeimlo. Cyfarwyddwyd y Clerc i gwyno'n ffurfiol i Katie Spain Pennaeth Gwasanaethau Parcio CSC / Councillors agree this is a problem and sympathise. Clerk instructed to formally complain to Katie Spain Head of Parking Services CCC.</i>
233	Alan Haird - <i>Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau, Economi ac Adfywio CSC /</i> Project Management and Development Office, Economy and Regeneration, CCC.	<i>Cynlluniau Lle – Cam 2, tystiolaeth gefndir Aberteifi.</i> Place Plans – Phase 2, background evidence Cardigan.
234	Andrew Hopkins – <i>Rheolwr rhaglen cyfalaf cynllunio/capital</i> Programme Manager Planning – Hywel Dda.	<i>Arolwg – Gwerthusiad ôl-brosiect CGI Aberteifi.</i> Survey – Post project evaluation of Cardigan ICC.
235	<i>Y Cyng/Cllr Yvonne O'Neill (ar ran preswlydd Stryd y Castell /</i> on behalf of a Castle Street resident): <i>Llythyr o wrthwynebiad yn erbyn cais trwydded gweithredu cerbyd nwyddau /</i> Letter of objection against application of goods vehicle operator's licence.	<i>Mae'r cludiant trwm ar Stryd y Castell yn tyfu i fod yn bryder mawr i drigolion y stryd. Bydd Cyngorwyr yn ceisio sicrhau oriau cyfyngedig gan y cwmnïau cludo mawr /</i> The heavy transport on Castle Street is growing to be a major concern for the residents. Councillors will attempt to secure limited hours from the large haulage companies.
236	<i>Cylchlythyr Mis Medi CIC Hywel Dda.</i> Hywel Dda CHC September Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 13/09/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/09/2021.
237	<i>Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hyn Cymru mis Medi.</i> Older People's Commissioner's Newsletter September.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 13/09/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/09/2021.
238	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales -</i>	<i>Gopi o'r gweminar Caru Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus /</i> Recording of Caru cymru Keep wales tidy webinar.
239	Area 43 – <i>Dim gallu i gynnal caffi atgyweirio ar hyn o bryd.</i> No ability to host repair cafe currently.	<i>Mae Cyngorwyr yn derbyn y penderfyniad a byddant yn parhau i geisio lleoliad arall ar gyfer y fenter /</i> Councillors accept the decision and will continue to seek another venue for the initiative.
240	Meinir Ebbsworth – <i>Prif Swyddog Addysg, CSC /</i> Chief Education Officer.	<i>Drafft cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg Ceredigion 2022-2032 /</i> Welsh in education strategic plan 2022-2032.
241	Sarah Bowen – <i>Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol /</i> Community Cohesion Officer.	<i>Gwahoddiad i wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb, bore coffi rhiwir /</i> Invitation to hate crime awareness week, virtual coffee morning.
242	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales –</i> DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police: Facebook Marketplace Scams.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 21/09/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/09/2021.

243	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Tanya Nash - Pennaeth polisi, Ombwdsmon Cymru / Head of Policy, Ombudsman Wales.</i>	<i>Ymgynghoriad Agored ar Ganllawiau Arfaethedig yn ymwneud ag “Egwyddorion Gweinyddu Da” a “Rheoli Cofnodion yn Dda” / Open Consultation on Proposed Guidance on “Principles of Good Administration” and “Good Records Management”.</i>
244	Quentin Grimley – <i>Tim Llwybr Arfordir Cymru CNC / NRW Wales Coast Path Team.</i>	<i>Arolwg ffermwyr a pherchennog tir – Ein Llwybrau Byw / Farmer and Landowner survey – Our Living Trails.</i>
245	Alex Mackay – <i>Croeso Teifi: Ailsefydlu teuluoedd ffoaduriaid / Resettling refugee families.</i>	<i>Mae cartref wedi ei ddarganfod ar gyfer y teulu ffoadur Syrian / A home has been found for the Syrian refugee family.</i>
246	Cymdeithas yr Iaith – <i>Cais i gefnogi’r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli’r farchnad dai / Request for support calling on the Welsh Government to control the housing market.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn teimlo’n gryf i gefnogi’r ymgyrch hon ac ychwanegwyd y dylai newid enwau hanesyddol Cymraeg ddod yn ofyniad cynllunio / Councillors feel strongly to support this campaign and added that changing historical Welsh names should become a planning requirement.</i>
247	<i>Is-adran diwygio Cyllid, Llwyodraeth Cymru / Local Government Finance, Welsh Government: Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo / Consultation of local taxes for second homes and self-catering accommodation.</i>	<i>Cytunodd cynghorwyr i ymateb i’r ymgynghoriad yn unigol / Councillors agreed to respond to the consultation individually.</i>
248	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Ystadau Cymru.</i>	<i>Nodyn atgoffa ceisiadau am Gwobrau Ystadau Cymru 2021 / Reminder for submissions to the Ystadau Cymru Awards 2021.</i>
249	Leighton Jones – <i>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol / Independent Remuneration Panel for Wales.</i>	<i>Adroddiad blynyddol drafft panel annibynnol cymru ar gydnabyddiaeth ariannol – Chwefror 2022 / Independent remuneration panel for Wales draft annual report – February 2022.</i>
250	Beti Gordaon – <i>Swyddog Datblygu Trefi Gwledig Ceredigion Ceredigion Rural Towns Development Officer: Cais i gwrdd ag aelodau’r cyngor am drafodaeth / Request to meet members of the council for a discussion.</i>	<i>Clerk i wahodd Beti Gordon i gwrdd â chynghorwyr yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref ym mis Tachwedd / Clerk to invite Beti Gordon to meet with councillors in the next Town Council meeting in November.</i>
251	Gerwyn Jones – <i>Gwasanaethau Amgylcheddol CSC / Environmental Services CCC: Ffair Gaeaf Aberteifi – Elfen y farchnad / Cardigan Winter Fair – Market Element.</i>	<i>Gobaith y cynghorwyr yw y bydd Menter Aberteifi yn trefnu elfen marchnad y ffair y flwyddyn nesaf. Bydd y Cyng Richard Jones yn ceisio darganfod faint o waith sydd dan sylw i weld a yw’n ymarferol trefnu elfen y farchnad eleni gyda chymorth Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Councillors hope that Menter Aberteifi will arrange the market element of the fair next year. Cllr Richard Jones will attempt to find out how much work is involved to see if it is feasible to arrange the market element this year with the assistance of the Cardigan Carnival Committee.</i>
252	Lowri Edwards – <i>Gwasanaethau Democratiaidd CSC / Democratic Services CCC: Cyfarfod rhwng cyrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned / Meeting between representative of the County council and Town and Community Councils.</i>	<i>Bydd y Maer a’r dirprwy yn mynychu’r cyfarfod hwn / The Mayor and Deputy will attend this meeting.</i>
253	<i>Y Cyng/Clr Yvonne O’Neill: Lori tancer yn cael trafferth ar Stryd y Castell / Tanker lorry having trouble on Castle Street.</i>	<i>Gweler gohebiaeth rhif 235. See correspondence 235.</i>
254	Christina Fraser – <i>Prif Arolygydd Heddlu / Chief inspector Dyfed-Powys Police: Gwahoddiad i drafod sut yr ymchwiliwr i drosedd / Invitation to discuss how crime is investigated.</i>	<i>Bydd y Maer yn cysylltu â’r Prif Arolygydd i drefnu dyddiad addas / The Mayor will contact the Chief Inspector to arrange a suitable date.</i>
255	Penny Thomas – <i>We Say No to Cardigan Traffic Diversion: Copi o lythyr a anfonwyd i gyfarfod cabinet CSC / Copy of letter sent to CCC cabinet meeting.</i>	<i>Nodwyd / Noted.</i>

256	Sarah Wright – Cardigan Extinction Rebellion: <i>Cais am gefnogaeth i fynd i'r afael â Chynhadledd Hinsawdd COP 26 mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd</i> / Request for support to address the COP 26 Climate Conference with regards to the climate emergency.	Cyngorwyr yn cefnogi'r ymdrech hon yn gryf, bydd y Maer yn cyflwyno llythyr i Michail Davies ar ei ffordd drwy'r dref ar 23 Hydref / Councillors strongly support this effort, the Mayor will present a letter to Michail Davies on his way through the town on the 23 October.
-----	---	---

**d) Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145).**  
Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972).

<i>Enw'r Sefydliad/Clwb/Elusen</i> Name of Organisation/Club/Charity	<i>Derbyniwyd Cyfrifon</i> Accounts received	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Gŵyl Fawr Aberteifi		£2500	£2500	£0	£0
Theatr Mwldan	✓	£0	£2500	£2500	£2500
Citizen's Advice Bureau		£0	£2000	£2500	£0
Age Cymru Ceredigion	✓	£0	£2000	£2000	£2000
Castell Aberteifi	✓	£0	£2000	£2000	£2000
Sadwrn Barlus/Barley Saturday		£750	£750	£0	£0
Gŵyl Afon a Bwyd/River & Food		£500	£500	£0	£0
Clwb pêl-droed iau Llandudoch FC	✓	£0	£0	£0	£400
Pwll Nofio Aberteifi	✓	£10,000	£2000	£2000	£3000
Clwb pêl-droed Aberteifi FC	✓	£0	£0	£400	£1324.36
Theatr Byd Bychan/Small World Theare	✓	£0	£1000	£2000	£2000
Cardigan Brioude Twinning	✓	£0	£0	£0	£1000

**Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan Gŵyl Fawr Aberteifi, Cyngor ar Bopeth, Dydd Sadwrn Barlus a y Gŵyl Afon a Bwyd, felly roedd yn benderfyniad unfrydol i beidio â rhoi arian i'r sefydliadau hyn er bod symiau penodol wedi'u dyrannu iddynt yn y gyllideb. Nodyn i'r Clerc fod yn fwy rhagweithiol wrth atgoffa pawb dan sylw y dyddiadu cau ar gyfer y ceisiadau grant.**

No applications were received from Gŵyl Fawr Aberteifi, Citizen's Advice Bureau, Barley Saturday and the River and Food Festival, therefore it was a unanimous decision not to allocate funds to these organisations even though there are specific amounts allocated to them in the budget. Note for the Clerk to be more proactive in reminding all concerned the deadlines for the grant applications.

**Section 137**—This power is to be used for the benefit of some or all of the inhabitants and cannot be used when there is another specific power available. Using s137 to authorise payment when another power could have been used is a common issue. When making payment always revise the list of powers that are available to community and town councils especially if the payment is out of the ordinary.

**Section 19** (Local Government [Miscellaneous Provision] Act 1976—can be used to provide recreational facilities, eg buildings for clubs or societies having athletic, social or recreational objects, donations to sports clubs, play area.

**Section 142** (Local Government Act 1972)—can be used to provide information and advice, eg Citizens' Advice Bureau, family centres, parish newsletters, websites.

**Section 144** (Local Government Act 1972)—can be used to encourage visitors and provide conference and other facilities, eg village signs, Christmas trees and lights, conference facilities, twinning costs, Britain in Bloom.

**Section 145** (Local Government Act 1972)—can be used for the provision of entertainment, eg festivals, carnivals, shows, parties, fireworks, bands.

#### **Penderfynodd Cynghorwyr dderbyn argymhellion y Is-Bwyllgor Grantiau yn ei gyfanrwydd.**

Councillors resolved to accept the recommendations of the Sub-Grants Committee in its entirety.

#### **e) Cofio ein cewri lleol - argymhellion yr Is-bwyllgor:**

Cynigiodd y Cyng Richard Jones y dylid gosod system sain newydd yn Neuadd y Dref wedi'i chysylltu ag unedau sain ledled y dref gan ddefnyddio Bluetooth. Gallai hyn gynnwys ardistiaid, beirdd, cerddorion a phob math o berfformwyr lleol i'w darlledu trwy'r dref. Gellid ei defnyddio hefyd fel system sain/offeryn hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau lleol fel dydd Sadwrn Barlys, Gŵyl Afon a Bwyd, Gorymdaith y Golau ayyb. Roedd gan yr unigolion a gollwyd i'r gymuned leol angerdd am dalent a cherddoriaeth leol ar ryw ffurf a byddai creu'r cyfleuster hwn i'r dref er cof iddynt yn brosiect addas i'w hanrhydeddu. Croesawyd y syniad gan y cynghorwyr a oedd yn bresennol a gytunodd i gefnogi'r fenter. Byddai ymchwil cychwynnol i gynllunio a chostau yn cychwyn ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn.

Derbyniwyd cynnig pellach ar gyfer placiau, a luniwyd yn wreiddiol i weddu i bersonoliaethau'r unigolion, mewn gwahanol leoliadau yn y dref. Mynegodd y cynghorwyr ddymuniad i gysylltu â'r teuluoedd i gael eu barn cyn i unrhyw gamau gael eu cwblhau.

Rhoddodd Cynghorwyr eu cefnogaeth i'r fenter a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Cyng Richard Jones i ddechrau'r dasg angenrheidiol o gasglu manylion a chostau. Yn y pen draw, bydd gweithgor yn cael ei ffurfio i gyflawni'r prosiect. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r teuluoedd i egluro'r prosiect, holi am y placiau a'u lleoliad a sicrhau eu bod yn cymeradwyo dymunidadeu'r cyngor.

Honouring our local heroes – recommendations of the sub-committee:

Cllr Richard Jones proposed a new sound system to be installed at the Guildhall linked to speakers throughout the town using a Bluetooth connection. This could feature local artists, poets, musicians and all kinds of performers to be broadcast through the town. It could also be used as a speaker system/promotion tool for local events such as Barley Saturday, River and Food Festival, Lantern Parade etc. The individuals lost to the local community had a passion for local talent and music in some form and creating this facility for the town in their memory would be a suitable project to honour them.

The idea was welcomed by the councillors present who agreed to support the venture. Initial research into planning and costs would begin once approved by the full council.

A further proposal for plaques, originally shaped to suit the personalities of the individuals, at various locations in town was also accepted. Councillors expressed a wish to contact the families for their views before any actions are finalised.

Councillors gave their support to the venture and instruction was given to Cllr Richard Jones to begin the necessary task of collecting detail and costs. A working group will eventually be formed to undertake the project. The clerk will contact the families to explain the project, enquire about the plaques and their location and make sure they approve the wishes of the council.

- f) **Cynnal a chadw murlun gerllaw hen farchnad Aberteifi (wal Jewsons).**  
Roedd y Cyng Graham Evans yn dymuno mynegi ei bryder ynghylch difrod i'r wal concrit y mae'r murlun wedi'i beintio arno. Gall hyn gael ei achosi gan fod Jewsons y manwerthwyr yn storio deunyddiau yn erbyn ochr arall y wal. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at reolwr Jewsons i ofyn nad yw deunyddiau'n cael eu storio'n uniongyrchol yn erbyn y wal concrit er mwyn osgoi difrod pellach.

Upkeep of mural by the old Cardigan mart (Jewsons wall).

Cllr Graham Evans wished to express his concern over damage to the concrete wall that the mural is painted on. This may be caused by materials being stored against the other side of the wall by Jewsons the retailers. The Clerk is to write to the manager of Jewsons to request that materials are not stored directly up against the concrete wall to avoid further potential damage.

- g) **Hen safle Canolfan Ddydd, Rhos y Dre.**  
Mae'r Cyng John Adams-Lewis wedi ymchwilio i gwynion o ffens wedi cwmpo ond ni allai ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth o'r broblem. Bydd y clerc yn adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r achwynydd.

The old Day Centre Site, Rhos y Dre.

Cllr John Adams-Lewis has investigated the complaints of a collapsed fence but could find no evidence of the problem. The Clerk will report his findings back to the complainant.

8. **Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only**

- a) **Dyddiadur y Maer / Mayors' Diary**  
**Nid yw'r Maer wedi gallu cyflwyno adroddiad y mis hwn oherwydd salwch.**  
The Mayor has been unable to submit a report this month due to illness.
- b) **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors**

**Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan**

**STAD BRYNHAFOD:** Er fod y Stad yma yn Ward Rhyd y Fuwch, 'wyf wedi ymgyrchu, ers i mi gael fy ethol ar Gyngor Dosbarth/Cyngor Sir Ceredigion yn 1991- dros deng mlynedd ar hugain yn ol, i gael yr heol yma wedi ei fabwysiadu. Adeiladwyd y stad yma yn y chwe/saith degau. Er fod rhai o'r trigolion yn mynnu fod 'bond' wedi ei dalu – nid oes ganddynt nac gan y Cyngor Sir, unrhyw dystiolaeth o hyn. Dros y blynnyddoedd 'rwyf wedi trefni sawl cyfarfod yng nghartref un o'r trigolion, gyda gwahanol swyddogion yn bresennol, gan gynnwys y diweddar Deulwyn Morgan, cyn Prif Wethredwr, Cyfarwyddwyr Priffyrdd, Geoffrey Brooks Cyfreithiwr y Cyngor, Aelodau Seneddol a nifer o brif swyddogion. Heb unrhyw dystiolaeth fod 'bond' wedi ei dalu, ni fu'n bosib gwneud unrhyw welliannau a'r gost yn disgyn ar y Cyngor Sir. Yn ddiweddar, drwy gydweithio rhwng swyddogion a'r trigolion, deithpwyd o hyd i gynllun – gyda'r trigolion yn talu am y gwaith yn ôl maint eu cartref. Drwy lwc, mae'r Cynulliad – drwy gynllun peilot - wedi cytuno i ariannu, gyda swm sylweddol tuag at y gost, felly yn lleihau y gost i'r trigolion. Cytunwyd ar y penderfyniad gan Gabinet y Cyngor Sir yn ddiweddar gan na fydd unrhyw gost ar y Cyngor Sir. 'Rwyn falch iawn i gyhoeddi fod y contractwyr wedi dechrau ar y gwaith yr wythnos ddiwethaf, gwaith a ddaw a'r heol lan i safon a fydd yn dderbyniol yw fabwysiadu gan



y Cyngor Sir. Felly, edrychaf ymlaen yn eiddgar i weld y gwaith wedi ei gwblhau – ar ol blynyddodd maith o ymgyrchu.

**GWASANAETH AMBIWLANS:** Mae'n edrych yn debygol fod argyfwng yn y gwasanaeth ambiwlans yn lleol – er fod Prif Weithredwr y gwasanaeth yn gwadu hynny. Ar hyn o bryd mae tîm o ddau griw yn ystod y dydd yn Aberystwyth ag Aberteifi ac un criw yn y nos yn y ddwy dref. Y bwriad yw, mae'n debyg fod y staff yn ymwybodol o hyn, bydd ond un criw yn Aberystwyth ag Aberteifi yn y dydd a dim gwasanaeth ar ol oriau gwaith. Mae hyn yn hollol anerbyniol, mae Aberteifi 30 milltir i ffwrdd o unrhyw ysbyty, ac ar hyn o bryd mae mae 'na engreiffiau o gleifion yn gorfod aros am oriau am ambiwlans. Felly, mwy o ambiwlans a gwella ar y gwasanaeth sydd eisiau, dim llai, mae'r bwriad yn wallgof.

Mae Elin Jones AS wedi ysgrifenni i Eluned Morgan Aelod a chyfrinoldeb am iechyd – ac 'rwyn cynnig bod y Cyngor hwn hefyd yn ysgrifenni i Eluned Morgan yn datgan ein pryder yn fawr iawn ac yn gofyn iddi ymyrryd yn y bwriad i leihau'r gwasanaeth pwysig yma mewn ardal wledig.

**BWCABUS:** Mae Trafnidiaeth Cymru yn ehangu'r gwasanaeth bws fflecsi ymhellach, gan gyrraedd rhan arall o Gymru, gweler y linc isod i gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am y gwasanaeth, map o'r parth fflecsi a sut mae archebu, ewch

i <https://www.bwcabus.info> neu <https://fflecsi.cymru>

**Linc ar-lein:** <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/ehangu-r-gwasanaeth-bws-fflecsi/>

Cllr John Adams-Lewis Mwldan Ward

**BRYNHAFOD ESTATE:** Although this estate is in the Rhyd-y-fuwch ward, I have campaigned since being elected as a county councillor for Ceredigion over thirty years ago, to have this road adopted. The estate was built in the sixties/seventies. Some of the residents insist that a bond was paid, but neither they or the County Council have any record of this. Over the years I have arranged several meetings in the home of one of the residents, with various officials present including the late Deulwyn Morgan, past Chief Executive, Highways Director, Geoffrey Brooks - Council Solicitor, Members of Parliament and various chief officers. Without any evidence of a bond being paid, it was impossible to carry out any improvements at the cost of the County Council. Recently, through working in partnership with officers and residents, a plan was agreed for residents to pay for the work on the basis of the size of their home. As luck would have it, the assembly, through a pilot scheme, have agreed to finance the work reducing the cost on the residents. I am pleased to announce that the work has started last week, which will bring the road to an acceptable standard for adoption by the County Council. Therefore, I look forward eagerly to see the work completed – after long years of campaigning.

**AMBULANCE SERVICE:** It's looking very likely that we have a dire situation with our local ambulance service, although the Service Chief Executive is denying this. At the moment we have two teams during the day both in Aberystwyth and Cardigan and one team at night in both towns. The intention, and it seems the staff are aware of this, is to have one team in Aberystwyth and Cardigan during the day and no service out of working hours. This is totally unacceptable, Cardigan is 30 miles away from a hospital, and we currently have experience of patients waiting for hours for an ambulance to reach them. Therefore, we need more ambulances and an improvement to the service, not less, the proposals are ridiculous. Elin Jones AM has written to Eluned Morgan, member with responsibility for health – and I propose that the Council do the same to declare their deep concern, and ask that she prevent this proposal to cut services in rural areas.

BWCABUS: Transport Wales have expanded the flexible bus service to reach more areas in Wales. To find out more, including details of the service, map of the fflecsi zone and how to book, please visit <https://www.bwcabus.info> or <https://fflecsi.wales>

### **Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi**

**SBWRIEL:** Gweld bod CSC yn gosod bin mawr ar Stryd y Priordy bob dydd lau, a'i gasglu fore Gwener. Gobeithio y bydd hyn yn datrys y broblem. Hefyd, mae lluniau gan aelod o'r cyhoedd o gerbyd sy'n gollwng bagiau yn yr ardal yn reolaidd – bron bob dydd, felly mae CSC yn dilyn lan ar y wybodaeth. Mawr obeithio y bydd hyn yn llai o broblem wrth i ni fynd mewn i'r Hydref/ Gaeaf.

**COVID:** Achosion yn dal yn uchel a chyfanswm o 4,258 yng Ngheredigion. Graddfa 386.5/100k (612/100k dros Gymru, ddoe). Nodyn i atgoffa unrhywun sy'n trefnu digwyddiad – dan do neu tu-fas – tan gwyllt neu thebyg – bod angen cysylltu a'r Cyngor Sir a chariot mas Asesiad Risg bob tro.

Galw bobl ifanc 12/15 i dderbyn y brechlun nawr – yn hen ysgol Trewen, Cwm Cou yng ngodre'r Sir.

**DWR CYMRU:** Gobeithio y bydd gwaith yn dechrau'n fuan, ganol Hydref, yn Stryd Morgan i osod gorsaf pwmpio newydd. Bydd llythyr yn mynd allan i breswylwyr, a byddant yn gallu cael mynediad at dai yn Stryd Santes Fair trwy wneud honno'n 2-ffordd rhwng y Llew Coch a'r Angel.

**YSTAD DDIWYDIANNOL PENTOOD:** Dwi'n cyd-weithio gydag Aelod Senedd Elin Jones ar y mater o fynedfa i'r Ystad oddi ar yr A487 a wedi cael gwybod gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd eu bod yn ail-edrych ar y mater. Gwn bod hyn wedi cael ei ymchwilio adeg yr agorwyd y ffordd osgoi ond mae pethau wedi newid yn sylweddol ers 1991 – gyda nifer a maint y cerbydau wedi cynyddu llawer.

### **Clr Catrin Miles Teifi Ward**

**WASTE COLLECTION:** I see that CCC have started leaving a large wheelie-bin on Priory Street each Thursday and collecting it Friday morning. Crossing everything that this goes towards solving the problem, especially as we move into Autumn/Winter. CCC have details of an individual dumping bags from his car on a regular basis, so I do hope this bad practice can be nipped in the bud.

**COVID:** Cases in Ceredigion total 4,258 to date with a rate of 386.5 per 100,000 (612/100k Wales-wide. Anyone who's arranging an event (indoors/ outdoors – fireworks etc) is urged to contact CCC to prepare a Risk Assessment.

12/15 year olds are now being called for their Covid vaccine – at the old Trewen school, Cwm Cou South of the County.

**WELSH WATER:** hoping that work on the new pumping-station starts soon, mid-October. Another letter will go out to residents confirming the date and vehicle access to Lower St Mary Street will be made 2-way between the Red Lion and the Angel.

**PENTOOD INDUSTRIAL ESTATE:** Receiving an increasing number of concerns from local residents and I'm working with Senedd Member Elin Jones and pressing the Welsh Govt to re-

visit the idea of a slip-road from the by-pass. Even though this was looked at (and rejected) when the by-pass was opened, things are very different today. The sheer volume and size of vehicles has increased greatly since it was opened 30 years ago.

**Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-fuwch**

**Ni chyflwynwyd adroddiad.**

Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch ward

No report submitted.

**c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report**

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5<sup>th</sup> Children's Play Area**  
**Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.**  
**Mae angen cwblhau'r porfa/ramp ar gyfer y weifren sip y mis hwn.**  
The turf/ramp for the zip wire needs to be completed this month.
- ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**  
**Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.**
- iii. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**  
**Cynhaliodd y sglefrwyr Jam llwyddianus iawn yn y parc yn ddiweddar.**  
The skaters held a very successful Jam at the park recently.
- iv. **Cyffredinol / General**  
**Ni fydd angen dyfri'r planhigoin ymhellach, bydd y basgedi'n cael eu tynnu a fydd fioledau yn cael eu plannu yn ystod yr wythnosau nesaf.**  
No further watering of the plants will be required, the baskets will be removed and pansies will be planted in the next few weeks.

**9. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei chadwyn.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

**Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel (dros y ffôn).**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody (over the phone).

**10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf**

**Dim eitemau.**

Items for the next Agenda

No items.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh.***

*There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.30pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....